Safon ansawdd NICE ar gyfer syndromau coronaidd acíwt (gan gynnwys cnawdnychiad myocardaidd)

5 Medi 2014

Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae safonau ansawdd NICE yn helpu i wella meysydd iechyd neu ofal cymdeithasol allweddol er mwyn cynnig y gofal gorau posib i bobl.

Mae'r wybodaeth hon yn egluro'r gofal a'r cymorth a ddisgrifir yn safon ansawdd 68 NICE ar syndromau coronaidd acíwt (gan gynnwys cnawdnychiad myocardaidd).

Syndromau coronaidd acíwt (gan gynnwys cnawdnychiad myocardaidd)

Mae'r safon ansawdd ar gyfer syndromau coronaidd acíwt (gan gynnwys cnawdnychiad myocardaidd) yn cynnwys chwe datganiad sy'n disgrifio gofal o ansawdd uchel i oedolion sydd â syndromau coronaidd acíwt (gan gynnwys cnawdnychiad myocardaidd). Mae'r datganiadau hyn yn nodi safon y gofal y dylech ei dderbyn.

1. Dim ond pan fydd arwyddion a symptomau yr oedolion sydd â phoen difrifol yn y frest a/neu mewn mannau eraill (er enghraifft, y breichiau, y cefn neu'r ên) a allai fod yn drawiad ar y galon (yr amheuir ei fod yn syndrom coronaidd acíwt) yn bodloni diffiniad y cytunwyd arno, y dylent gael diagnosis o drawiad ar y galon.

2. Caiff risg oedolion sydd â chyflyrau ar y galon, a elwir yn NSTEMI, ac angina ansefydlog, o gael trawiad arall ar y galon ei amcangyfrif er mwyn llywio eu triniaeth.

3. Caiff oedolion sydd â chyflyrau ar y galon, a elwir yn NSTEMI, ac angina ansefydlog, ac sy'n wynebu risg ganolig neu uwch o gael trawiad arall ar y galon, gynnig prawf o'r enw angiograffi coronaidd, a thriniaeth i wella llif y gwaed i'r galon, os oes angen, o fewn 72 awr o gael eu derbyn i'r ysbyty.

4. Caiff oedolion sydd â chyflyrau ar y galon, a elwir yn NSTEMI, ac angina ansefydlog, ac sydd mewn cyflwr ansefydlog, gynnig prawf o'r enw angiograffi coronaidd, a thriniaeth i wella llif y gwaed i'r galon, os oes angen, cyn gynted â phosibl, ond o fewn 24 awr ers i'w cyflwr ddod yn ansefydlog.

5. Gall oedolion sy'n anymwybodol ar ôl math o drawiad ar y galon a elwir yn STEMI gael prawf a elwir yn angiograffi coronaidd, a thriniaeth i wella llif y gwaed i'r galon os oes angen, er eu bod yn anymwybodol.

6. Caiff oedolion sydd â math o drawiad ar y galon a elwir yn STEMI, a ddechreuodd gael symptomau dim mwy na 12 awr cyn cysylltu â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, gynnig triniaeth i wella llif y gwaed i'r galon (a elwir yn ymyrraeth goronaidd drwy bigiad neu PCI). Dylent allu cael y driniaeth hon cyn gynted â phosibl ond o fewn 120 munud o'r adeg pan gallant fod wedi cael fibrinolysis (cyffur sy'n 'trechu clotiau').

Eich gofal

Dylai eich tîm iechyd a gofal cymdeithasol egluro unrhyw driniaeth, gofal neu gymorth y dylid ei gynnig i chi er mwyn i chi benderfynu ar y cyd beth sydd orau i chi. Mae NICE hefyd wedi paratoi cyngor a safonau ansawdd ar wella gofal i oedolion sy'n defnyddio'r GIG y gallech fod am eu darllen.

Mae gennym hefyd ragor o wybodaeth ar wefan NICE am ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhagor o wybodaeth am syndromau coronaidd acíwt (gan gynnwys cnawdnychiad myocardaidd)

Defnyddiwyd canllaw NICE (cyngor) ar y pynciau canlynol i ddatblygu'r safon ansawdd hon:

- chest pain of recent onset. canllaw clinigol NICE 95 (2010).
- unstable angina and NSTEMI. canllaw clinigol NICE 94 (2010).
- myocardial infarction with ST-segment elevation. canllaw clinigol NICE 167 (2013).

Ffynonellau o gyngor a chymorth i bobl sydd â syndromau coronaidd acíwt (gan gynnwys cnawdnychiad myocardaidd), eu teuluoedd a'u gofalwyr

- Sefydliad Prydeinig y Galon, 0300 330 3311
  www.bhf.org.uk
- Action Heart, 01384 292233
  www.actionheart.com
- Cymdeithas Ffibriliad Atrïaidd, 01789 867 502
  www.afa.org.uk

Gallwch hefyd fynd i NHS Choices i gael rhagor o wybodaeth am iechyd a gofal cymdeithasol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

Mae nifer o sefydliadau sy'n rhannu ymrwymiad NICE i wella safon yn y maes hwn yn cefnogi'r safon ansawdd hon yn ffurfiol. Efallai y gallant hefyd

ddarparu cyngor a chymorth. Am restr o'r sefydliadau hyn, ewch i'r adran ar syndromau coronaidd acíwt (gan gynnwys cnawdnychiad myocardaidd) ar wefan NICE.

ISBN: 978-1-4731-0773-1